# Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant

## Adolygiad Cyflym: Marwolaethau plant oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn

Dyma grynodeb o adolygiad cyflym o farwolaethau plant oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn. Bu'r adolygiad yn ystyried gwybodaeth sydd ar gael yn hawdd ynghylch marwolaethau plant oherwydd brathiadau neu ymosodiad gan gŵn a allai hysbysu'r gweithgareddau i atal marwolaethau yn y dyfodol neu adnabod gwaith pellach a fyddai o fudd.

### Yr hyn wnaethom ni

Buom yn archwilio adroddiadau yn y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru a Lloegr am farwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn; llenyddiaeth a gyhoeddwyd ar beryglon brathu gan gŵn ac atal hynny; data derbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gi yng Nghymru; ac argymhellion gan grwneriaid yng Nghymru.

### Ein canfyddiadau

Mae gan gŵn le pwysig mewn cymdeithas ac maent yn gydymaith gwerthfawr i lawer o deuluoedd ledled Cymru. Mae cŵn yn rhan bwysig, iach o fywyd teuluol i'r rhan fwyaf o deuluoedd.

Mae marwolaethau oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn brin. Mae anafiadau difrifol oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn fwy cyffredin, gydag oddeutu 114 o dderbyniadau i ysbyty y flwyddyn yng Nghymru. Mewn plant ifanc mae brathu/ymosodiad gan gi neu gŵn yn effeithio ar yr wyneb a'r pen yn fwyaf aml, ac yn arferol mae'n ofynnol cael gofal arbenigol gan lawfeddygon y genau a'r wyneb neu lawfeddygon cosmetig. Mae mwy o dderbyniadau ymhlith plant o ardaloedd mwy amddifadus, ac o blith trigolion rhai ardaloedd daearyddol.

Mae'r adroddiadau yn y wasg a'r cyfryngau o'r nifer gymharol fach o farwolaethau yn y Deyrnas Unedig yn ystod y blynyddoedd diweddar yn awgrymu bod y rhan fwyaf o farwolaethau yn digwydd mewn plant ifanc, gyda rhai i blant oedran hŷn, yn enwedig oedran ysgol cynnar. Yn arferol adroddir bod y ci yn un cyfarwydd i'r teulu, er nad dan berchnogaeth teulu agos o angenrhaid. Mae'n bosibl nad yw'r perchennog yn bresennol.

Awgryma cyngor arbenigol nad yw brîd y ci yn rhagfynegydd da o'r perygl; mae ffactorau eraill, yn cynnwys hanes y ci, cymdeithasoli a chyd-destun y digwyddiad, yn bwysig hefyd.

Mae taflenni i deuluoedd ar ddiogelwch gyda chŵn ar gael gan wahanol asiantaethau yn a thu hwnt i'r Deyrnas Unedig. Nid yw taflenni gwladol arferol i rieni newydd yn cynnwys unrhyw gyngor penodol ar ddiogelwch gyda chŵn.

### Yr hyn nad ydym ni'n ei wybod

Ni ddaethom o hyd i fawr ddim tystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio wrth atal anafiadau difrifol oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn ar blant. Roedd yr astudiaethau y daethom o hyd iddynt yn ymwneud ag addysgu plant oedran ysgol. Ni lwyddodd y rhain i ddangos newidiadau hirhoedlog mewn gwybodaeth na newidiadau mewn ymddygiad.

Ni wnaethom archwilio cofnodion swyddogol manwl y marwolaethau hyn; gallai adroddiadau yn y wasg a'r cyfryngau fod yn anghywir. Efallai na wnaethom nodi'r holl lenyddiaeth berthnasol.

Mae data derbyn i'r ysbyty oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn awgrymu gwahaniaethau pwysig ar draws Cymru, nad ydynt wedi eu hymchwilio yn fanylach eto.

Ni wnaethon archwilio unrhyw faterion perchnogaeth gyfrifol na'r berthynas rhwng lles cŵn a lles plant.

Nid oeddem yn medru llunio unrhyw gasgliadau ar rôl mesurau rheoleiddiol o ran perchnogaeth gyfrifol neu'r perygl o anaf i blentyn.

## Cyfleoedd atal

Ein prif casgliad mai'r cyngor pwysicaf i'r cyhoedd yw:

***peidiwch byth â gadael babi neu blentyn ifanc gyda chi heb oruchwyliaeth, hyd yn oed am eiliad, waeth pa mor dda rydych chi'n adnabod y ci.***

Gellid pwysleisio hyn, a negeseuon eraill, wrth yr holl rieni newydd, mewn modd cytbwys, gan bwysleisio bod hyn yn berthnasol i unrhyw gysylltiad â chŵn, yn cynnwys pan fo'r plentyn dan ofal pobl eraill. Mae'r cyfleoedd i dynnu sylw at y negeseuon hyn yn cynnwys drwy gysylltiad â'r fydwraig cyn geni, drwy ymwelwyr iechyd yn rhinwedd eu swydd fel eiriolwyr dros ddiogelwch plant mewn cymunedau ac wrth weithio â theuluoedd unigol, cynnwys hyn yn niweddariadau Naw Mis a Mwy * a chofnod iechyd personol y plentyn a gedwir gan y rhiant. Gellid ystyried dulliau eraill o ran gwybodaeth gyhoeddus ynghylch diogelwch y cartref a'r teulu i gyfathrebu'r neges hon i deuluoedd, yn cynnwys cyswllt drwy wasanaethau awdurdodau lleol a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae cyfleoedd i sicrhau bod perchnogion cŵn yn ymwybodol o'r peryglon i blant, ac yn ymwybodol o'r angen i rannu'r cyngor hwnnw ag eraill a allai fod yn gofalu am y ci pan nad yw'r perchennog yn bresennol. Gellid atgyfnerthu negeseuon o'r fath drwy fridwyr, milfeddygon ac eraill.

## Gwaith arall y gellid ei ystyried

- Gallai archwilio epidemiolegol manylach i'r data sydd ar gael ynghylch derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau oherwydd brathu gan gi neu gŵn fod yn werthfawr. Gallai ystyried y rhesymau am gyfraddau uwch mewn ardaloedd daearyddol penodol fod yn fuddiol hefyd.

- Gallai unrhyw ymyriadau a gyflwynir yn dilyn yr adolygiad hwn gynnwys gwerthusiad cynlluniedig, er enghraifft, yng nghyswllt dealltwriaeth rhieni o'r perygl neu dderbyniadau plant i'r ysbyty.

- Byddai rhagor o ymchwil i effeithiolrwydd ymyriadau i leihau'r risg o anafiadau difrifol i fabanod, plant ifanc a phlant hŷn oherwydd brathu/ymosodiad gan gŵn yn fuddiol.

Mae adroddiad llawn yr adolygiad cyflym ar gael i gyd-fynd â'r crynodeb hwn.

* *Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2014. Naw Mis a Mwy*. www.nawmisamwy.cymru.nhs.uk

**Am ragor o wybodaeth:**
**Gwefan: http://www.iechydcyhoedduscymru.org/adolygiadofarwolaethauplant**
**E-bost: childdeathreview@wales.nhs.uk**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales